Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Picton Court**

**200 West Road**
**Porthcawl**
**CF36 3RT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

29/7/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Picton Court

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Hafod Housing Association Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 76 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Ebrill 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu’n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hapus iawn yn byw yn Picton Court a chânt gefnogaeth gyson dda gan dîm gwybodus, gofalgar a phrofiadol. Mae'r gofal a'r cymorth o safon uchel. Mae'r bobl yn cael cymorth ac anogaeth i fyw bywydau egnïol a gwneud dewisiadau dyddiol. Mae cynlluniau personol yn rhoi gwybodaeth am y bobl a'u hanghenion gofal; fodd bynnag, gellid eu ehangu ymhellach i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae angen gwelliannau i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n dda a bod protocolau'n cael eu dilyn yn gyson. Gofelir am y bobl mewn amgylchedd cynnes, glân a chyfforddus sy'n diwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn fodlon ar y prydau sy'n cael eu gweini yn y cartref. Mae'r staff yn dilyn y canllawiau cyfredol sy'n ymwneud â COVID-19, ac mae hyn yn cynnwys defnyddio'r cyfarpar diogelu personol cywir i gadw’r bobl yn ddiogel. Caiff y gwasanaeth ei arwain yn dda gan reolwr ymroddedig, gyda chefnogaeth uwch dîm sefydledig. Maent yn cyfathrebu'n dda, caiff y nyrsys a'r gweithwyr gofal eu cefnogi'n dda gan y rheolwr, a chânt eu goruchwylio'n rheolaidd. Mae prosesau recriwtio staff yn cefnogi arferion diogel ac mae gan y staff fynediad da at hyfforddiant i sicrhau eu bod yn ddigon medrus i gyflawni eu rolau. Mae'r tîm rheoli'n ymroddedig i ddatblygiad a gwelliant parhaus y gwasanaeth. Mae gan yr unigolyn cyfrifol dros dro drosolwg o'r gwasanaeth a chaiff archwiliadau monitro ansawdd eu cwblhau.

## Llesiant

Caiff y bobl gymorth a'r cyfleoedd i gael rheolaeth dros eu bywydau. Caiff cynlluniau personol eu cwblhau a'u hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd yr holl ddogfennaeth yn gyflawn ac yn fanwl ym mhob ffeil. Mae datganiad o ddiben a chanllaw ysgrifenedig ar gael ac yn amlinellu'r broses asesu a derbyn, natur y gwasanaeth a ddarperir, a sut i godi cwyn. Mae gan y bobl ddewis da o brydau a diodydd i ddiwallu eu hanghenion a'u dewisiadau maethol. Gwelsom y bobl yn mwynhau'r prydau a ddarperir a gwelsom ddiodydd a byrbrydau'n cael eu cynnig trwy gydol y dydd. Dywedodd staff y gegin wrthym am ofynion deietegol y bobl ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o hoffterau a chasbethau'r bobl.  Derbyniodd y cartref sgôr o 5 (da iawn) yn dilyn arolygiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae mesurau cyson ar waith i ddiogelu’r bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gwasanaeth yn cynnal amrywiaeth o wiriadau iechyd a diogelwch i sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl. Mae mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith sy'n dilyn canllawiau cyfredol. Mae'r adeilad yn ddiogel a dim ond unigolion awdurdodedig all fynd i mewn. Mae unrhyw risgiau a pheryglon a nodwyd i ddiogelwch y bobl wedi'u hasesu, eu cofnodi a'u lliniaru. Mae polisïau ar waith i gefnogi rhediad esmwyth y gwasanaeth. Mae'r staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu a sut i adrodd am unrhyw bryderon. Mae gwiriadau recriwtio yn sicrhau bod gan y staff y sgiliau priodol a'u bod o gymeriad da, fel eu bod yn addas i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Mae'r gwasanaeth yn hysbysu cyrff perthnasol yn brydlon am unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon.

Mae trefniadau llywodraethu cryf iawn ar waith i sicrhau bod y bobl yn byw yn dda ac yn derbyn gwasanaeth da yn gyson. Mae uwch aelodau'r tîm yn cyfathrebu'n dda gyda'r staff ac yn eu cefnogi pan fo angen. Teimlai gweithwyr proffesiynol allanol a pherthnasau fod y cyfathrebu'n dda iawn ac maent yn hyderus yn y modd y caiff y gwasanaeth ei reoli. Mae trefniadau ar waith i gefnogi'r staff trwy oruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol reolaidd. Mae'r staff yn teimlo eu bod wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n dda, ac mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad yn cadarnhau hyn. Mae prosesau sicrhau ansawdd helaeth ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol dros dro yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r cartref ac yn monitro ansawdd y gwasanaeth yn weithredol.

Mae’r bobl yn byw mewn llety addas sy'n cefnogi ac yn hybu eu llesiant. Mae ystafelloedd unigol y bobl yn darparu lle iddynt dreulio amser ar eu pen eu hunain, os dymunant wneud hynny. Mae ystafelloedd yr unigolion yn cynnwys eitemau personol ac wedi'u dodrefnu'n addas ac maent yn annog eu hannibyniaeth. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn rhydd rhag rhwystrau ac mae wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau pan fo angen ac mae asesiad risg tân ar waith. Mae profion larymau tân ac ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gadael yr adeilad.

## Gofal a Chymorth

Nid yw'r cynlluniau personol yn nodi anghenion presennol y bobl bob amser. Edrychwyd ar enghreifftiau o gynlluniau personol ac asesiadau risg ac roedd prinder manylion a gwybodaeth allweddol arwyddocaol ym mhob un. Mae'r rhain yn ddogfennau pwysig ac mae angen iddynt gynnwys lefel briodol o fanylion er mwyn helpu'r staff i ddeall anghenion unigolion ac i amddiffyn y bobl rhag niwed. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Gwnaethom siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld a dywedodd wrthym nad oedd ganddo unrhyw bryderon ynghylch y gofal a ddarperir yn Picton Court. Gwelsom fod perthnasau a gweithwyr proffesiynol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau er lles pennaf y bobl a bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n briodol yn eu ffeiliau gofal. Gwelsom y gweithwyr gofal yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r bobl gydol yr arolygiad. Mae dau gydlynydd gweithgareddau penodedig, a chaiff cynllun gweithgareddau ei arddangos yn y cartref. Fodd bynnag, mae'r holl staff yn gyfrifol am sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw'n brysur. Mae'r prydau yn cael eu paratoi'n ffres ac yn cael eu cyflwyno'n dda. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r prydau bwyd ac y gallent gael rhywbeth gwahanol bob amser pe byddent yn dymuno. Dywedodd un person, "*Mae'r bwyd yn fendigedig.*"

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn derbyn eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodir. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau, sydd yn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir ac felly'n parhau i fod yn effeithiol. Mae archwiliadau meddyginiaeth yn sicrhau bod y staff yn cynnal arferion da ac yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Nid oedd sampl o gofnodion meddyginiaeth a welsom yn cynnwys unrhyw fylchau na chamgymeriadau; storir meddyginiaeth yn ddiogel mewn cyfleuster dan glo ac mae cyffuriau a reolir a gwiriadau cyflenwadau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau i sicrhau bod y canllawiau cyfredol yn cael eu dilyn drwy gofnodi'r rheswm dros feddyginiaeth 'yn ôl yr angen' a'r canlyniad. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae systemau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel, megis drysau diogel â ffob allwedd a llyfr mewngofnodi ar gyfer ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd. Mae gan y staff hyfforddiant diogelu cyfredol, a chadarnhaodd pob un y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn codi unrhyw arferion gwael a welwyd a'u bod yn gwybod sut i godi pryder. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal da. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i gadw'r bobl yn ddiogel a chânt eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. Dywedodd perthynas wrthym, "*Dydw i ddim yn mynd adref yn teimlo'n bryderus am y ffordd y mae'n derbyn gofal.*"

Ar y cyfan, mae lefelau staffio priodol a chyson ar waith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Pan fyddant wedi'u staffio'n llawn, mae lefelau staffio da ar gyfer pob shifft, gyda'r rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth am gyfnod sylweddol. Yn fwy diweddar, mae prinder staff wedi bod, gyda rhai aelodau o staff yn gadael eu gwaith a rhai yn profi'n bositif am COVID-19. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn ymateb yn rhesymol o brydlon i glychau galw ac unrhyw geisiadau am gymorth. Mae'r staff yn cynorthwyo ei gilydd ac yn ganmoliaethus o'r cymorth y mae cymheiriaid ac

aelodau'r tîm rheoli yn ei ddarparu. Dywedodd y bobl wrthym, “*Rwy'n hapus iawn gyda'r gofal rwy'n ei dderbyn*”, “*Allwn i ddim ymgartrefu yn y dechrau. Rwy'n hapus nawr, rwy'n ei hoffi'n fawr iawn*” ac “*Allwn i ddim dymuno bod yn un lle gwell*”.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau bod y cartref a'i gyfleusterau'n ddiogel. Mae dogfennau iechyd a diogelwch yn dangos bod rhaglen dreigl o wiriadau diogelwch ac o waith gwasanaethu a chynnal a chadw offer a chyfleusterau yn y cartref. Mae gweithdrefnau, profion a hyfforddiant tân effeithiol ac effeithlon ar waith i amddiffyn y bobl. Cadarnhawyd cofnodion bod profion larymau tân yn cael eu cynnal yn wythnosol. Gwelsom y cyfleusterau golchi dillad, sy'n addas i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Gwelsom fod cyfyngwyr ffenestri hefyd yn cael eu defnyddio, sy'n amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae amserlenni glanhau dyddiol effeithiol ar waith gyda holl rannau'r cartref yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda.

Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer anghenion unigol y bobl. Gwelsom fod yr ardaloedd yn lân ac yn daclus, a gwelsom fod mannau hygyrch dan do ac yn yr awyr agored i'r bobl eu defnyddio. Roedd cynllun y cartref a'r ffenestri mawr yn darparu lefel dda o olau naturiol, a oedd o gymorth i ddarparu amgylchedd byw dymunol. Gwelsom fod ardaloedd personol y bobl wedi'u gosod mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu eu dewisiadau unigol a'u hanghenion gofal cymhleth. Ni chaiff unrhyw ystafell ei rhannu. Mae pob rhan o'r cartref yn ymddangos yn ymarferol ac mewn cyflwr da, yn ogystal ac yn gyfforddus ac yn gartrefol. Mae safon glanweithdra a hylendid y cartref yn ymddangos yn dda. Mae'r cyfleusterau cegin a golchi dillad yn addas ar gyfer maint y cartref.

Mae gan y nyrsys a'r gweithwyr gofal ddigonedd o gyfarpar diogelu personol er mwyn lleihau'r risg o haint. Mae gan y gwasanaeth fesurau rheoli heintiau a gweithdrefnau ymweld priodol. Dywed y staff fod cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol a'u bod yn gwybod beth i'w ddefnyddio a phryd a sut.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael mynediad at wybodaeth ysgrifenedig i'w helpu i ddeall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol. Mae hyn yn cynnwys disgrifiad cywir o lety'r gwasanaeth, y broses atgyfeirio a derbyn, a'r math o ofal a chymorth sydd ar gael. Darperir gwybodaeth hefyd am y ffyrdd y mae'n gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Mae'r datganiad o ddiben hefyd yn cynnwys manylion am oruchwyliaeth y gwasanaeth a threfniadau hyfforddi ar gyfer y staff gofal a nyrsio.

Mae'r adran adnoddau dynol yn cadarnhau bod y broses recriwtio staff yn bodloni'r holl ofynion rheoliadol. Mae staff gofal newydd yn derbyn cyfnod sefydlu yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau, sy'n cynnwys hyfforddiant rheoli heintiau a diogelu. Dywed y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a'u bod yn gweithio'n dda fel tîm. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r rheolwyr, a'i bod yn hawdd mynd at bob un ohonynt. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau cwmni cadarn ar waith i'r staff eu dilyn. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o bolisïau: eirioli, cwynion, rheoli heintiau, meddyginiaeth a diogelu, a chanfod eu bod yn gyfredol. Caiff y nyrsys a'r gweithwyr gofal eu goruchwylio'n rheolaidd a chânt arfarniadau blynyddol, a chynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r bobl. Dywedodd y staff wrthym, "*Rwyf wrth fy modd yma*", "*Rwy'n mwynhau gweithio yma*" ac "*Mae'n drefnus iawn yma*".

Mae'r rheolwr yn hysbysu cyrff rheoleiddio ac asiantaethau statudol perthnasol yn briodol pan fydd pryderon a digwyddiadau arwyddocaol a all effeithio ar lesiant unigolion sy'n derbyn gofal. Gwelsom fod y cyfathrebu'n effeithiol, yn agored ac yn dryloyw. Gwelsom fod hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru, yr awdurdod lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol yn amserol ac yn gyson.

Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal goruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus. Gwelsom ddogfennau'n ymwneud â phrosesau sicrhau ansawdd y gwasanaeth, sy'n cael eu cwblhau mewn modd amserol. Mae adroddiadau'r unigolyn cyfrifol yn cwmpasu amrywiaeth o faterion gweithredol ac yn nodi meysydd lle mae agen gwneud gwelliannau. Canfuom yn gyffredinol fod teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn rhoi adborth cadarnhaol am y gofal a ddarperir. Mae polisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Gwelsom nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law ers arolygiad diwethaf AGC.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 15 | Mae angen diweddaru cynlluniau personol i adlewyrchu'n gywir anghenion gofal a chymorth pobl a lliniaru risgiau. | Newydd |
| 58 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â Rheoliad 58(3). Mae hyn yn wir am fod y gweithwyr gofal a'r nyrsys yn rhoi meddyginiaeth 'yn ôl yr angen' i rai pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ond nid ydynt bob amser yn cofnodi'r rheswm na'r canlyniad. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 06/09/2022